**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL**

**PWNC:** **PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL - DYDD LLUN, 19 GORFFENNAF 2021 DYDD LLUN, 19 GORFFENNAF 2021**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: M. MOORE (CADEIRYDD)

Cynghorwyr:
C. Meredith (Is-gadeirydd)
P. Baldwin
M. Cook
M. Day
P. Edwards
S. Healy
W. Hodgins
J. Holt
J. C. Morgan
L. Parsons
T. Sharrem
B. Summers
L. Winnett

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **<u>COFNODION PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| No. 5 | **<u>DALEN WEITHREDU - 7 MEHEFIN 2021</u>**<br><br>Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2021.<br><br>*<u>Rhaglen Gwaith Cyfalaf Priffyrdd 2021-22</u>*<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol y trefnwyd Sesiwn Wybodaeth i Aelodau ar gyfer 2.00pm ar 29 Gorffennaf 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen weithredu. | |
| No. 5.1 | **<u>NEWID TREFN YR AGENDA</u>**<br><br>Cytunwyd i drafod eitem rhif 9 yn nesaf ar yr agenda. | |
| No. 6 | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH: 4 HYDREF 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r Flaenraglen Gwaith ar gyfer y cyfarfod sydd ar yr amserlen ar gyfer 4 Hydref 2021.<br><br>Gofynnodd Aelod am adroddiad ar Lwybrau Diogel i'r Ysgol ddod gerbron y Pwyllgor cyn gynted ag sy'n bosibl, yn cynnwys y Bws Hyblyg.<br><br>Dilynodd trafodaeth fer pan esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol y cafodd cwmpas Llwybrau Diogel i Ysgolion ei ehangu ac roedd yn awr yn 'Llwybrau Diogel i Gymunedau' ac y byddir yn dod ag adroddiad ar y meini prawf ar gynigion i'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | Pwyllgor.<br><br>Awgrymodd Aelod arall y dylid adolygu polisi cynnal a chadw y gaeaf yng ngoleuni'r datblygiadau tai newydd o fewn y Fwrdeistref.<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth fod y prif ddatblygiadau tai newydd sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd eisoes ar yr amserlen cynnal a chadw gaeaf. Fodd bynnag, caiff yr amserlen ei hadolygu i roi ystyriaeth i unrhyw ddatblygiadau newydd yn y dyfodol.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn pellach cadarnhaodd y Swyddog fod darpariaeth ar gyfer biniau halen ar gyfer unrhyw adeiladau nad ydynt ar y prif lwybr graeanu, ac y caiff y meini prawf ar eu cyfer eu hystyried ar gyfer datblygiadau newydd pan fydd pobl yn byw ynddynt.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gytuno ar y Flaenraglen Gwaith. | |
| **No. 7** | **<u>CYNLLUN RHEOLI RISG LLIFOGYDD (2016- 2022)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol/Arweinydd Tîm Amgylchedd Naturiol.<br><br>Cyflwynodd yr Uwch Beiriannydd Draeniad Tir yr adroddiad sy'n diweddaru Aelodau ar gynnydd wrth gyflwyno Cynllun Rheoli Llifogydd 2016-22 Blaenau Gwent. Mae Atodiad 2 yn rhoi'r sylw i'r cynnydd a wnaed ers y mabwysiadwyd y Cynllun ym mis Rhagfyr 2015 a'r cynnydd a wnaed ers yr adolygiad blynyddol diwethaf yn 2020.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnodd sylw at y pwyntiau ynddo.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at adran 2.2 yr adroddiad a gofynnodd pa waith sy'n cael ei wneud gyda phartïon eraill i sefydlu cyfrifoldeb am ddraeniad.<br><br>Cadarnhaodd y Swyddog fod y Cyngor wedi gweithio gyda phartïon eraill yn cynnwys Dŵr Cymru a Tai Calon. Fodd bynnag, roedd weithiau'n anodd dynodi cyfrifoldeb, yn neilltuol pan gafodd anheddau Tai Calon eu gwerthu. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd Aelod arall os oes rhaglen dreigl ar waith i lanhau draeniau er mwyn osgoi llifogydd fflach.<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm Golwg Strydoedd y derbyniwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru y llynedd i wneud gwaith glanhau gwliau ychwanegol ar draws y seilwaith priffyrdd. Roedd rhestr waith yn ei lle ac mae rhai gwliau yn cael eu harchwilio bob 2 wythnos a rhai bob 6 wythnos.<br><br>Gofynnodd Aelod os oes systemau yn eu lle i wirio a chynnal cwlfertau ar dir preifat ac os oedd tirfeddianwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw ac yn y blaen.<br><br>Cadarnhaodd yr Uwch Beiriannydd fod y Cyngor yn cynnal ymchwiliadau CCTV helaeth ar gwlfertau, sy'n cyfrif am gyfran fawr o gyllid grant. Yn nhermau tir mewn perchnogaeth breifat, y rheol gyffredinol oedd y byddai'r tirfeddianwyr yn gyfrifol am unrhyw gyrsiau dŵr sy'n rhedeg drwy eu tir.<br><br>Gofynnodd Aelod os byddai tirfeddianwyr preifat yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosid oherwydd nad oedd cwlfertau yn cael eu cynnal a chadw.<br><br>Dywedodd y Swyddog y caiff pob achos ei farnu ar ei haeddiant; fodd bynnag ni wyddai am unrhyw achosion lle mae'r Cyngor wedi ailgodi tâl ar breswylwyr am unrhyw waith a wnaethpwyd fel canlyniad i lifogydd. Prif ffocws y Cyngor yw datrys y broblem a gwneud unrhyw waith sydd ei angen. Caiff hyn ei gyllido gan y gyllideb bresennol neu drwy gyllid grant.<br><br>Manteisiodd Aelodau ar y cyfle i ddiolch i'r tîm am eu gwaith yn delio gyda nifer o ddigwyddiadau llifogydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.<br><br>Dywedodd Aelod fod llawer o'r cwlfertau o fewn y Fwrdeistref yn hen iawn ac mewn risg yn neilltuol gyda'r nifer cynyddol o stormydd mewn blynyddoedd diweddar a dywedodd y dylai'r Cyngor ystyried sefydlu cronfa i ymateb i sefyllfaoedd llifogydd argyfwng.<br><br>Cyfeiriodd hefyd at y llifogydd yn Sgiwen a achoswyd gan hen byllau glo a gofynnodd os yw'r Cyngor yn gweithio gyda'r Awdurdod Glo i ganfod cyflwr hen byllau glo yn y Fwrdeistref. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog fod y Cyngor yn gweithio'n dda gyda'r Awdurdod Glo, fodd bynnag mae dyddiad pryd y byddent yn peidio bod yn gyfrifol am hen byllau. Hefyd, oherwydd y ddeddfwriaeth sydd yn ei lle, roeddent yn gyfyngedig o ran pa gamau gweithredu y gellid eu cymryd. Yn nhermau sefydlu cronfa i gynnal gwaith argyfwng, esboniodd y Swyddog pe byddai'r Cyngor yn talu am waith ymlaen llaw, na fyddai Llywodraeth Cymru yn caniatáu i ni adhawlio arian.<br><br>Dywedodd yr Aelod y byddai llifogydd yn dod yn fwy aml a bod arian ar gael mewn cronfeydd cadw y gellid ei neilltuo i wneud gwaith argyfwng, tebyg i gyllideb cynnal a chadw y gaeaf.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at adran 2.7 a gofyn pryd y gallai Aelodau ddisgwyl Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Swyddog ei fod yn y broses o gael ei gwblhau ac y caiff ei gyflwyno naill ai i gyfarfod nesaf y Pwyllgor neu i gyfarfod arbennig.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod wedyn at adran 4.10 a threfniant y Cyngor gyda Chaerffili yng nghyswllt SuDS, a gofynnodd pryd y caiff y trefniant hwn ei adolygu.<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod y trefniant yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac na fyddai'n addas trafod unrhyw fanylion. Dywedodd fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn edrych ar SuDS hefyd gan fod y canllawiau newydd yn feichus gyda chostau ychwanegol. Fodd bynnag, dywedodd y byddai'n rhaid i bawb symud ymlaen gyda SuDS gan ei fod yn rhan hanfodol o reoli hinsawdd a llifogydd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a derbyn yr adroddiad a nododd y cynnydd a wnaed dros y 12 mis blaenorol (Opsiwn 1). | |
| **No. 8** | **<u>ADRODDIAD SEFYLLFA - ANIFEILIAID CRWYDROL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol / Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth | |

yr adroddiad sy'n rhoi trosolwg o broblem anifeiliaid crwydrol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r adroddiad yn amlinellu maint y broblem, yn cynnwys dynodi lleoliadau daearyddol lle caiff y broblem ei hadrodd yn aml a chyflwynwyd cynllun gweithredu i ddatrys digwyddiadau. Mae'r adroddiad yn adroddiad aml-adrannol ac mae'r cynllun gweithredu'n nodi'n glir y rhai sy'n gyfrifol am bob gweithred.

Mynegodd Aelod bryder bod yr arolwg o dir a gwaith i ddynodi cyfrifoldeb am ffensio yn dal heb ei orffen. Dywedodd fod clwydi'n cael eu gadael ar agor ac nad y ffermwyr oedd ar fai am ddifrod i ffensys, ond yn y pen draw nhw sy'n gyfrifol am wirio eu hanifeiliaid a'u crynhoi pan maent yn crwydro.

Dywedodd y Swyddog fod datblygu rhestr hollol gyfredol o ffermwyr i gysylltu â nhw pan wneir adroddiadau am broblemau anifeiliaid crwydrol yn rhan o'r cynllun gweithredu. Dywedodd fod mwyafrif y ffermwyr yn ymateb yn gyflym iawn ond roedd nifer fach yn cymryd mwy o amser, yn neilltuol y rhai sydd â swyddi eraill. Mae gwaith yn ymwneud â meithrin perthynas gyda ffermwyr i weld beth fedrwn ei wneud i'w cefnogi a hefyd weithio gyda'r heddlu i sicrhau y caiff anifeiliaid eu symud ymlaen yn gyflym.

Cyfeiriodd Aelod at adran 2.5 a gofynnodd pryd oedd y tro diwethaf i'r Cyngor archwilio ei llinellau ffens. Er ei bod yn croesawu'r cynllun gweithredu, dywedodd ei fod yn debyg iawn i'r gwaith a wnaed yn flaenorol gan y Fforwm Anifeiliaid Crwydrol. Mynegodd bryder hefyd am faint o amser y mae'n ei gymryd i'r Cyngor ymateb i faterion difrod i ffensys.

Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Stadau fod y Cyngor yn dirfeddiannwr sylweddol ac nad oedd ganddo'r adnoddau i gynnal archwiliadau rheolaidd o'i ffensys terfyn. Caiff ei wneud ar sail ymateb pan dderbynnir adroddiadau am ddifrod i ffensys.

Yng nghyswllt yr amserau ymateb dywedodd y Swyddog fod nifer o ffactorau yn arafu'r broses. Dim ond un Swyddog Gweithredoedd Tir sydd ar gael ar hyn o bryd i ddynodi perchnogaeth tir. Roedd swyddogion hefyd yn ei chael yn anodd dynodi union leoliad ffensys oedd wedi'u difrodi ac awgrymodd y gallai fod yn fwy manteisiol yn y dyfodol i Aelodau gwrdd â swyddogion ar safle i ddangos lle'r oedd angen atgyweiriadau. Hefyd dim ond un contractwr ffensio sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd, gan yr ymddengys fod diffyg awydd ar gyfer y math hwn o waith ac roedd

| | | |
|---|---|---|
| | hefyd oedi gyda chyflenwi deunyddiau.<br><br>Dywedodd mai rhan o'r cynllun gweithredu oedd dynodi'r ardaloedd problemau mwyaf ar y cynllun, a dynodi cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r ardaloedd hynny. Bwriedir hefyd wneud gwaith caffael ar gyfer contractwyr ffensio ychwanegol.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i dirfeddianwyr preifat i gynnal ffensio llinellau yn ymyl tir comin, a gofynnodd pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r ddeddfwriaeth honno.<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr Stadau y byddid yn rhoi blaenoriaeth yn y cynllun gweithredu i ddynodi cyfrifoldebau ar gyfer llinellau ffensys ar dir comin. Fodd bynnag, esboniodd efallai nad yw rhai tirfeddianwyr wedi cofrestru ond hefyd efallai nad yw'r gweithredoedd yn dangos cyfrifoldeb am derfynau, ac na wyddai os gellid cymryd unrhyw gamau yn yr achos hwn.<br><br>Dilynodd trafodaeth fer pan fynegodd Aelod gonsyrn na fu cyfarfod gyda ffermwyr am 2 flynedd. Dywedodd fod y cyfarfod diwethaf yn gynhyrchiol a chytunwyd cwrdd gyda ffermwyr mewn ardaloedd penodol, a mynegodd gonsyrn na symudwyd ymlaen gyda hyn.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm Golwg Strydoedd y bwriedir cynnal cyfarfodydd lleol i drafod mannau problem, fodd bynnag roedd y pandemig yn golygu y cafodd y cyfarfodydd hynny eu gohirio. Fodd bynnag, cadarnhaodd fod yr Aelod Gweithredol yn awyddus i symud ymlaen gyda'r cyfarfodydd hynny ac y byddent yn rhan o'r Cynllun Gweithredu yn y dyfodol.<br><br>Dywedodd Aelod y dylid dynodi arian i drin problem anifeiliaid crwydrol. Awgrymodd hefyd fod y Cyngor yn ceisio cytundeb gyda ffermwyr lleol i locio defaid ar ran y Cyngor.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cymdogaeth y cafodd hyn ei ystyried yn flaenorol gyda Chyngor Sir Powys, fodd bynnag mae rhai ffermwyr yn amharod oherwydd yr amser penodol sydd ei angen i gadw anifail.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y gymhariaeth o awdurdodau lleol ar dudalen 53 yr adroddiad a dywedodd fod pob awdurdod lleol yn yr ardal yn profi'r un problemau, a dywedodd y dylid ystyried dull cydweithio ar draws rhanbarth De Ddwyrain Cymru. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dilynodd trafodaeth fer pan ddywedodd Aelod y dylai’r Cyngor ystyried ailddechrau’r gwasanaeth llocio.<br><br>Dywedodd y Swyddog fod y Cyngor wedi penderfynu yn 2014/15 i ddod â’r gwasanaeth llocio i ben. Byddai angen sicrhau cyfleuster newydd pe byddai’r Cyngor yn penderfynu ailddechrau’r gwasanaeth.<br><br>Dywedodd Aelod y teimlai llawer o Aelodau fod angen ailddechrau’r gwasanaeth llocio ac y byddai’n fanteisiol cymharu’r gorbenion cyfredol gyda’r rhai sydd eu hangen i ddod â’r gwasanaeth yn ôl yn fewnol. Dywedodd fod y Cyngor yn berchen cryn dipyn o dir y gellid ei ddefnyddio ar gyfer i diben hwnnw.<br><br>Dywedodd y Swyddog nad oedd yr adroddiad yn awgrymu ailddechrau’r gwasanaeth llocio, ond yn dangos beth fyddai’r gost. Roedd yn deall pwynt yr Aelod ond tanlinellodd y byddai angen llawer o waith o ran y materion ymarferol a deddfwriaeth i adsefydlu’r gwasanaeth hwnnw. Fodd bynnag, cadarnhaodd y gallai’r costau fod yn rhan o’r cynllun gweithredu.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am weithrediadau ar draws Gwent yng nghyswllt beiciau modur oddi ar y ffordd, cadarnhaodd y Rheolwr Tîm Golwg Strydoedd y byddai’r Heddlu yn gweithredu yn yr wythnosau nesaf ac y cynhelir cyfarfodydd o’r Gweithgor bob 3 mis. Cadarnhaodd hefyd fod trafodaethau yn mynd rhagddynt parthed cyllid posibl drwy’r cynllun Teithio Llesol ar gyfer darparu clwydi gwrthsefyll da byw ar lwybrau teithio lleol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a gwnaeth argymhellion ar gyfer newidiadau i’r dull gweithredu/Cynllun Gweithredu a amlinellir yn yr adroddiad. (Opsiwn 2). | |
| **No. 9** | **GWAITH YCHWANEGOL CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD 2021 - 22**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol/Rheolwr Tîm Golwg Strydoedd.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Golwg Strydoedd yr adroddiad sy’n rhoi opsiynau ar gyfer gwaith ychwanegol arfaethedig i ddelio gyda materion cynnal a chadw arferol priffyrdd, megis tyllau yn y ffordd a gwaith clytio ym mlwyddyn ariannol bresennol 2021/22. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd y Swyddog y bwriedir cwrdd gydag Aelodau Ward yn yr wythnosau nesaf i ddynodi gwaith o fewn eu wardiau.<br><br>Gofynnodd Aelod os y gellid ychwanegu'r gwaith matrics at y contract presennol a dywedodd y Swyddog y byddai'n rhoi adroddiad yn ôl ar y mater hwn.<br><br>Croesawodd Aelodau yr adroddiad a dweud eu bod yn edrych ymlaen at y cyfarfodydd ward.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a dynodi'r gwaith angenrheidiol ym mhob un o'r 16 ward a thendro i gontractwr preifat, a chynnal tendr i sicrhau cost gwaith clytio priffyrdd fesul metr sgwâr, gan dargedu tua 400 metr sgwâr o atgyweiriadau priffyrdd ym mhob ward yn cynnwys ffyrdd preswyl ym mhob un o'r 16 ward (Opsiwn 2). | |
| **No. 10** | **<u>CANOLFAN GWEITHREDIADAU - DIWEDDARIAD PROSIECT AC ACHOS BUSNES AMLINELLOL</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, sef o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r eitem gael ei heithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra trafodir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol/Rheolwr Tîm Golwg Strydoedd.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Golwg Strydoedd yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar ddatblygu canolfan gweithrediadau newydd, a chyflwynodd yr achos busnes amlinellol ar gyfer y cyfleusterau newydd.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan eglurodd y Swyddog bwyntiau a godwyd gan Aelodau.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a bod Aelodau yn:<br>• Cydnabod y cynnydd ar y prosiect strategol allweddol hwn hyd yma; | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cefnogi’r achos busnes amlinellol sydd ynghlwm yn atodiad 1, yn amodol ar ddynodi adnoddau cyfalaf a chyflwyno ceisiadau am gyllid i gyrff cyllido allanol, tebyg i Lywodraeth Cymru, i sicrhau’r cyllid ar gyfer y prosiect; a<br>• Symud ymlaen i’r cam achos busnes terfynol ar gyfer ystyriaeth. | |